



Llais y Llan

RHIFYN 3

TYMOR Y GWANWYN 2012

Dyddiadau Pwysig

Dydd Iau Mawrth 1af

Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr.

Dydd Sadwrn Mawrth 10fed

Eisteddfod Cylch yr Urdd.
(Ysgol y Berwyn)

Dydd Mercher Mawrth 21ain

Ymweliad CA2 i Goleg y Bala

Dydd Gwener Mawrth 23ain

Trio Teithio Bl. Derbyn 1 a 2

Dydd Sadwrn Mawrth 24ain

Eisteddfod Sir yr Urdd.

Ysgol O M yn dod yn ail!

Nos Fawrth 24ain o Fawrth 2012, llwyddodd tîm pêl-rwyd yr ysgol i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth pêl-rwyd Rhanbarth Meirionydd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog. Roedd y safon yn uchel iawn, ac fe llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd derfynol ar ôl ennill pob gêm yn eu grŵp. Er i bawb chwarae yn arbennig o dda, colli fu eu hanes yn erbyn tîm cryf o Ysgol y Traeth. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi gyd!



Cefn (chwith i'r dde) – Alaw, Elliw, Gwydion a Gwern.
Blaen (chwith i'r dde) – Alaw, Sera, Sara, Fflur a Mared.

Ymwelydd o Nepal

Y tymor yma, cafwyd ymwelydd arbennig o Nepal. Croesawyd Uttam Phuyal a Nabin Shrestha o Kathmandu i'r ysgol. Treuliodd y ddau amser ymhob dosbarth gan siarad yn ddifyr am eu bywydau a'u gwaith yn Nepal.

Roedd pawb wrth eu boddau yn cael clywed a dysgu am grefydd a diwylliant y wlad.

Gadawodd y ddau gyda llond bag o lythrau ac anrhegion i blant ysgol Jaleshwary.



Dyma blant blwyddyn dau yn cyflwyno anrhegion i Uttam i ddiolch am ei ymweliad.

Ymweliad Jimmy Daley

Er mwyn dysgu mwy am sut brofiad oedd hi i fod yn faciwi yn yr Ail Ryfel Byd, dyma ni yn gwahodd Taid Osian (blwyddyn 3), sef Jimmy Daley, i ddod i siarad gyda ni. Doedd Mr Daley ddim ond yn bump oed pan symudodd o Lerpwl yn faciwi. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn, ac fe gafodd y plant holi eu cwestiynau eu hunain. A oeddech chi'n gwybod, oherwydd prinder bwyd yn ystod y rhyfel, doedd Mr Daley heb weld banana tan iddo droi yn 16 oed! Diolch yn fawr iawn i Mr Daley am ddod atom!



Mr Daley yn dangos hen lythyrau o'r ARB.



O'r chwith i'r dde: Owain, Gwennan, Ifan, Gwern, Harri, Gwydion a Caio.

Yn dilyn llwyddiant y tîm pêl-rwyd, tro tîm pêl-droed yr ysgol oedd hi i gystadlu yn rowndiau terfynol cystadleuaeth Rhanbarth Meirionydd yr Urdd. Unwaith eto, cafwyd gwledd o bêl-droed gan y tîm wrth iddynt ennill pob gêm yn eu grŵp. Ymlaen wedyn i'r rownd gyn-derfynol yn erbyn Ysgol Bro Tryweryn, ac ar ôl ildio dwy gôl, fe wnaeth y tîm yn wych i ddod yn ôl gan ennill 3-2. Eu gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol oedd Ysgol Llanelltyd, ac er i'r tîm chwarae yn wych, colli fu eu hanes! Llongyfarchiadau i chi gyd ar ddod yn ail teilwng iawn! Gwych!

Criw 'Ffeil' yn dod i holi

Gan fod Llanuwchllyn wedi'i ddewis yn un o nifer o safleoedd sydd wedi eu cynnig fel cartref posib i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Meirionnydd 2014, daeth criw y rhaglen deledu 'Ffeil' i holi blwyddyn 6 am eu barn nhw. Cafwyd trafodaeth ddifyr iawn, gyda rhai o blaid cael yr Eisteddfod yma yn Llanuwchllyn, ac eraill nad oedd yn siŵr! Gobeithio i chi wyllo Ffeil er mwyn gweld beth oedd gan y plant i'w ddweud!



Mared a Gwydion yn sgwrsio

Ymweliad â'r garej



Fel rhan o'n thema ar deithio, cawsom ymweld â Garej Llan i holi Iwan a dysgu mwy am waith mecanig mewn garej.

Rydym wedi creu ein garej ein hunain yn y dosbarth a daeth Iwan atom i ateb unrhyw gwestiynau oedd gan y plant.

Cawsant hefyd gyfle i wneud poster yn denu mwy o bobl i'r garej.



Llongyfarchiadau gwresog i Erin Aled ar ei llwyddiant diweddar yng Nghystadleuaeth Gala Nofio cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Yr Urdd yn 90 oed



Ymunodd yr ysgol yn nhrefniadau cenedlaethol yr Urdd trwy gynnal tē parti mawr i ddathlu plen-blwydd yr Urdd yn 90 oed. Daeth pawb i'r ysgol yn eu coch, gwyn a gwyrdd a bu dawnsio brwd i gân Mr Urdd a Rapskaliwn!

Neges PC Sue



Y tymor yma, daeth PC Sue i'r ysgol i siarad am beryglon cyfarfod â phobl ddiethr.



Diolch hefyd i Anti Catrin a phlant dosbarth blwyddyn 1 am baratoi'r holl fwydydd blasus!



Sêr y Sgrîn Fawr!

Ai dyma sêr mawr Hollywood y dyfodol? Efallai wir! Nos Sadwrn 30ain o Ionawr, cafwyd noson fawreddog yn y Galeri yng Nghaernarfon. Roedd y ffilm fer "Ysbryd y Gelyn" gan disgyblion blwyddyn 6 wedi'i henwebu ar gyfer gwobr Gwyl ffilm Pics 2012.

Roedd pawb wedi gwisgo'n smart iawn ar gyfer yr achlysur, a chafwyd noson i'w gofio!

Daeth y ffilm yn drydydd allan o ddeg! Llongyfarchiadau mawr i bawb! Cafwyd gwobr o £15 ond yn fwy na hynny, noson i'w chofio!

Plas Tan y Bwlch

Treuliodd plant blwyddyn 5 a 6, ddau ddiwrnod ym Mhlasdy Tan y Bwlch.

Yno, cafwyd cyfle i ymweld â'r ardal leol, a dysgu mwy am ddaeryddiaeth a hanes Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a sut yr effeithiodd y rhyfel ar bobl yng ngogledd Cymru.



Gweithdy Banc Barclays



Dyma rhai o'r plant a wnaeth gymryd rhan yng ngweithdy arian Banc Barclays. Daeth lona, i gynnal gweithgareddau gyda ni a cawsom fore hwyliog yn cyfri arian. Cawsom lyfrau a gwobrau bach i'w rhannu gyda'r dosbarth hefyd.

Diolch yn fawr iddynt.

Ymweliad Robert Glyn

Y tymor yma, daeth Robert Glyn i siarad am sut brofiad yw hi i fod yn ddall.

Cafodd y plant gyfle i ddysgu mwy am Braille trwy geisio darllen ambell i lyfr! Cawsant hefyd gyfle i geisio lliwio lluniau ac ysgrifennu eu henwau gan ddefnyddio peiriant ysgrifennu Braille.

Diolch yn fawr iawn i Robert am ddod atom i rannu ei brofiadau gyda ni.



Dathlu Diwrnod y Llyfr!



Plant Bl. 6 gyda Meical a ... o "Rownd a ...

Fel rhan o'm dathliadau ar gyfer Diwrnod y Llyfr, daeth criw Rownd a Rownd atom i berfformio darnau o lyfrau i'r plant. Cafwyd bore llawn hwyl yn eu cwmni, ac roedd yn ffordd wych o ddod â'r storiâu yn fyw.

Bydd yn yr Ardd!



Fel rhan o'n gwaith Cyngor Eco, gwahoddwyd Mrs MacLinden i'n dysgu ni sut i edrych ar ôl gardd yr ysgol. Mae'r cyngor wedi bod wrthi'n brysur yn creu potiau bach i dyfu llysiau gwahanol. Yn ogystal, maent wedi bod yn dechrau creu domen gompost yn yr ardd. Os oes ganddo chi unrhyw wastraff bwyd addas adref, mae croeso i chi ddod ag ef i'r ysgol i ni gael ei roi yn y domen!



Eisteddfod yr Urdd 2012



Dyma ni'r côr buddugol!



Erin, Ywain, Beca a Rhys.



Llwyddiant i blant Blwyddyn 6: Fflur, Elliw, Gwennan, Mared, Gwern a Gwydion.



Llongyfarchiadau i Erin Hana am ddod yn 3ydd yn yr unawd Bl. 1 a

Celf a Chrefft yr Urdd



Dyma ni'r ennillwyr!

Llongyfarchiadau gwresog i holl blant yr ysgol a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd.

Hwyl yng Nglan-llyn!

Fis Chwefror, cafodd dosbarth Blwyddyn 3 a 4 gyfle i aros noson yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn!

Cafodd y plant amser wrth eu boddau yn canwio, adeiladu rafft, yn ogystal â chael cyfle i flasu'r cwrs rhaffau uchel a'r wal ddringo.

Diolch yn fawr i holl staff y Gwersyll am amser gwych!



Dosbarth 3 a 4 ar ôl dau ddiwrnod llawn hwyl!

Trip Teithio Bl. Derbyn 1 a 2



Fel rhan o'u thema "Teithio", aeth dosbarth Mrs Davies am drip go arbennig! Yn gyntaf, aeth y plant

Gweithdy Gai Toms



Cafodd tri o blant yr ysgol wahoddiad i weithdy go arbennig neb llai nag ennillwr Can i Gymru 2012, Gai Toms! Cafodd Hari a Gwennan (Bl. 6), ac Ifan (Bl. 5) gyfle i weld sut brofiad yw hi i fod yn rhan o grŵp roc, ac fe gafodd y tri hwyl fawr iawn arni. Diolch yn fawr i Gai Toms am brynhawn buddiol iawn, a phwy a wyr, efallai y gwelwn y tri ar lwyfan Can i Gymru un diwrnod!